OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1781 (Cy.170)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Compartmentau Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - - 8 Gorffennaf 2010
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 9 Gorffennaf 2010
Yn dod i rym - - 30 Gorffennaf 2010

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 84 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Compartmentau Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2010. Mae'n gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 30 Gorffennaf 2010.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn:—

ystyr "safle cynhyrchu" ("*production site*") yw mangre lle mae dofednod yn cael eu cadw at ddibenion bridio, magu, pesgi neu gynhyrchu wyau ac sy'n destun cais o dan Orchymyn Compartmentau Dofednod (Cymru) 2010; ac

ystyr "safle gweinyddol" ("*administrative site*") yw mangre lle mae dogfennau neu gofnodion sy'n ymwneud â safle cynhyrchu yn cael eu cadw.

Ffioedd

3. Mae'r ffioedd ar gyfer arolygiadau yn rhinwedd Gorchymyn Compartmentau Dofednod (Cymru) 2010(**2**) a osodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn daladwy i Weinidogion Cymru gan y ceisydd o fewn 30 o ddiwrnodau o'r arolygiad.

(**1**) 1981 p. 22. Mae swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i "the Minister" a "the Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38) drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), trosglwyddwyd hwy i Weinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2010/1780 (Cy.169).